

CODI PONTYDD, CHWALU RHWYSTRAU:

Blwyddyn gyntaf strategaeth cyfnewid gwybodaeth y
Senedd

Hydref 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

MAE TYSTIOLAETH YMCHWIL DRYLWYR A DIDUEDD YN HANFODOL AR GYFER GWAITH CRAFFU EFFEITHIOL A DEDDFU DA.

Yn hydref 2021, lansiodd y Senedd ei **strategaeth cyfnewid gwybodaeth** gyntaf i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Senedd a'r gymuned ymchwil yng Nghymru a thu hwnt. Nod y strategaeth yw ehangu, dwysáu ac amrywio'r dystiolaeth ymchwil a'r arbenigedd sydd ar gael i Aelodau, staff a phwyllgorau, er mwyn gwella ansawdd y gwaith craffu a deddfu.

Yn y flwyddyn gyntaf o roi'r strategaeth ar waith, gwelwyd newid yn null y Senedd o gyfnewid gwybodaeth, tuag at ddull ehangach a mwy strategol o ymgysylltu â'r gymuned ymchwil.

Rydym wedi:

- Lansio **Rhwydwaith Cyfnewid Gwybodaeth newydd y Senedd** i ledaenu cyfleoedd ymgysylltu; ar hyn o bryd, mae dros 250 o aelodau o dros 100 o sefydliadau
- Datblygu **cysylltiadau newydd â sefydliadau ymchwil, cyngorau ymchwil, a rhwydweithiau ymchwil** ledled Cymru, y DU, a thu hwnt
- Treialu **ffyrdd newydd, arloesol o ymgysylltu â'r gymuned ymchwil**, gan gynnwys drwy Feysydd o Ddiddordeb Ymchwil cyntaf pwyllgorau'r Senedd
- Comisiynu **ymchwil newydd** mewn meysydd o ddiddordeb i Aelodau a phwyllgorau
- Cyflwyno **hyfforddiant i gannoedd o ymchwilwyr a chyhoeddi canllawiau newydd** ar sut i ymgysylltu'n effeithiol â'r Senedd
- Rhoi lle i naw myfyriwr PhD drwy'r **Cynllun Interniaeth Polisi Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI)**.

- Cynnal **diwrnod cyfnewid** rhwng swyddogion y Senedd ac ymchwilwyr o gampws SBARC Prifysgol Caerdydd, sef parc ymchwil gwyddorau cymdeithasol cyntaf y byd
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system newydd y Senedd i **fonitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau** a defnyddio'r data i ddeall y rhwystrau y mae ymchwilwyr yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â'r Senedd
- Cyfnewid **profiadau, cyngor a gwybodaeth â seneddau ledled y byd** ar graffu ôl-ddeddfwriaethol a chraffu sy'n sensitif i'r rhywiau

Cyflawnwyd y gweithgareddau hyn gan amrywiaeth eang o staff Comisiwn y Senedd, o Ymchwil y Senedd i wasanaethau pwyllgorau, a chyda chymorth timau Ymgysylltu, Cyfreithiol a Llywodraethu, ochr yn ochr â llawer o bartneriaid allanol.

Amcanion y strategaeth cyfnewid gwybodaeth

- 1** Gwerthu'r syniad o'r Senedd fel lle dylanwadol ar gyfer y gymuned ymchwil
- 2** Ei gwneud yn hawdd i ymchwilwyr ymgysylltu â'r Senedd
- 3** Amrywio'r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Senedd
- 4** Ehangu a dwysáu'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i'r Senedd
- 5** Manteisio i'r eithaf ar arbenigedd, sgiliau a phrofiad mewnol
- 6** Dylunio gwell gwasanaethau seneddol, a gwerthuso effeithiolrwydd

CYSYLLTIADAU NEWYDD

Er mwyn datblygu rhwydwaith o ymchwilwyr o amrywiol ddisgyblaethau, cefndiroedd, sefydliadau a safbwyntiau, rydym wedi:

- Mae gan **Rwydwaith Cyfnewid Gwybodaeth newydd y Senedd dros 250 o bobl o dros 100 o sefydliadau ymchwil**. Fe'i crëwyd ochr yn ochr â brand Cyfnewid Gwybodaeth newydd y Senedd a thudalennau gwe wedi'u hailwampio. Mae cylchlythyr misol y Rhwydwaith yn rhannu cyfleoedd i ymgysylltu â'r Senedd, gyda'r gymuned ymchwil yn cael ei thargedu'n benodol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriadau pwyllgorau sydd ar agor, comisiynau ymchwil, galwadau am arbenigedd, digwyddiadau, hyfforddiant, arweiniad a llawer mwy.

Mae'r adborth ar y cylchlythyr wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan: mae ymchwilwyr a lledaenwyr gwybodaeth yn gwerthfawrogi'r dull siop-un-stop wedi'i dargedu o ran crynhoi cyfleoedd i ymgysylltu â'r Senedd.

“Roeddwn i eisiau e-bostio i ddweud diolch yn fawr am anfon hwn [cylchlythyr rhwydwaith]. Roedd y wybodaeth yn ddefnyddiol iawn i mi ac rwyf wedi rhannu sawl agwedd â'r ymchwilwyr rwy'n eu cefnogi.”

Lledaenwr gwybodaeth mewn prifysgol yn y DU

- **Cysylltiadau cryfach â sefydliadau ymchwil** gyda pherthnasedd strategol i ddiddordebau ymchwil y Senedd, gan gynnwys Cymdeithas Ddysgedig Cymru, UKRI, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), Crwsibl Cymru, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD), campws SBARC Prifysgol Caerdydd, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, y prosiect Capabilities in Academic Policy Engagement (CAPE), a seneddau eraill y DU ac Ewrop.

Mae cysylltiadau hefyd wedi cael eu datblygu â chanolfannau ymchwil eraill, megis Canolfan ESRC ar gyfer Gofal, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a Chyngor Biofoeseg Nuffield, a hynny er budd timau ymchwil a phwyllgorau.

DULLIAU YMGYSYLLTU NEWYDD

I arbrofi gyda dulliau newydd o ymgysylltu ag ymchwilwyr, rydym wedi:

- **Treialu dull newydd o nodi arbenigedd a thystiolaeth ymchwil ar gyfer pwyllgorau drwy Feysydd o Ddiddordeb Ymchwil.** Mae o Ddiddordeb Ymchwil yn ffordd o amrywio'r dystiolaeth mae pwyllgorau yn ei chael ac o nodi bylchau yn y dystiolaeth a'i llenwi. Mae Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn helpu pwyllgorau i nodi tystiolaeth ymchwil ac arbenigedd cyn ymchwiliadau er mwyn cefnogi'r gwaith craffu ac i helpu i ddod o hyd i dystion sydd heb ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen.

Yn dilyn gweithdy cyfnewid gwybodaeth i'r Gyfarwyddiaeth Fusnes gyfan gyda Senedd y DU ym mis Mawrth, nododd dau bwyllgor bedwar Maes, ac fe lansiwyd yn rhain ym mis Medi.

O fewn wythnos, roedd 27 o ymchwilwyr o 16 sefydliad ledled y DU wedi cofrestru, ac i 75 y cant ohonynt, dyma'r tro cyntaf iddynt ymgysylltu â'r Senedd. Hefyd, gwnaethom lwyddo i gael cyllid CAPE ar gyfer Cymrawd Polisi i gefnogi'r gwaith hwn o fis Hydref 2022, gan dynnu ar eu profiad o arwain Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn Senedd y DU.

- Cynnal **trafodaeth ford gron gydag academyddion o'r gofrestr arbenigwyr i lywio rhaglen waith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.** Tynnwyd sylw yn y sesiwn at faterion nad oedd y pwyllgor yn ymwybodol ohonynt. Roedd y pynciau a nodwyd yn y drafodaeth yn sail i bum erthygl gan ymchwilwyr Ymchwil y Senedd ynghylch gofalwyr di-dâl, datblygu'r rhaglen frechu, y gweithlu gofal cymdeithasol, COVID hir ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- **Cefnogi'r gwaith o sefydlu system i fonitro amrywiaeth tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau'r Senedd.** Mae'r data a gasglwyd gan y system, ynghyd â ffynonellau eraill megis yr adroddiad Opening Up Parliament, yn cael eu defnyddio i ddeall yn well pwy sy'n rhoi tystiolaeth, pwy sydd ddim, a'r rhwystrau y mae ymchwilwyr (ac eraill) yn eu hwynebu o ran ymgysylltu â'r Senedd a sut i'w goresgyn.



“Mae natur gwaith ein Pwyllgor yn gymhleth ac ar gyfer yr hirdymor; mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ddefnyddio llawer o wahanol ddulliau o gasglu tystiolaeth ac arbenigedd. Mae Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn ffordd lwyddiannus o ymgysylltu â'r gymuned ymchwil a manteisio ar ymchwil newydd ac ar gyfer y dyfodol. Byddant yn ein helpu i wneud yn siŵr bod ein dewisiadau craffu a'n gwaith deddfu yn cael eu llywio gan y dystiolaeth ymchwil a'r arbenigedd gorau posibl, ochr yn ochr â'n grwpiau rhanddeiliaid eraill.”

**Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr
Amgylchedd a Seilwaith**



“Daeth yr academyddion [a gymerodd ran yn nhrafodaeth ford gron y Pwyllgor] o Gofrestr Arbenigwyr COVID y Senedd, sy'n ffynhonnell amhrisiadwy o arbenigedd ac ymchwil i bwyllgorau. Ein gobaith yn y Chweched Senedd yw y byddwn yn meithrin cysylltiadau cryf â'r gymuned ymchwil i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar y dystiolaeth orau a thystiolaeth fwy amrywiol, i'n helpu i ddwyn y llywodraeth i gyfrif a chynrychioli buddiannau pobl Cymru”.

**Russell George AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol**

HYFFORDDIANT A CHANLLAWIAU NEWYDD

I wella dealltwriaeth y gymuned ymchwil o'r Senedd, rydym wedi:

- **Cyflwyno sesiynau hyfforddi pwrpasol ar gyfer dros 300 o ymchwilwyr a lledaenwyr gwybodaeth** mewn sefydliadau ymchwil ledled Cymru a thu hwnt, ac i dros 150 o ymchwilwyr fel rhan o gyfres hyfforddi Senedd y DU ar gyfer Ymchwilwyr, ers mis Ebrill 2021. Fel arfer, mae hyfforddiant yn ymdrin â sut mae'r Senedd yn defnyddio ymchwil, y dirwedd o ran polisi Cymru a rolau gwahanol sefydliadau, ac awgrymiadau ar gyfer ymgysylltu â'r Senedd yn effeithiol.

“Roedd pob peth yn berl. O'r tu allan, gall y ffordd mae seneddau datganoledig yn gweithio a deall lle ymchwil ffitio yn hynny fod yn ddirgelwch, ond fe daflodd y digwyddiad lot o oleuni ar bethau”

Adborth o sesiynau hyfforddi

“Diolch am sgwrs hynod ddiddorol. Agorodd ein llygaid i'r amrywiaeth o ffyrdd y gall academyddion gynorthwyo'r senedd a'r llywodraeth.”

Adborth o sesiynau hyfforddi

“Mae hyn wedi bod yn hynod ddefnyddiol Hannah! Hynod atyniadol a ffordd fwy defnyddiol na sesiynau tebyg yr wyf wedi'u mynychu, wir gwerthfawrogi eich cymeriad gonest a phragmatig ar hyn”

Adborth o sesiynau hyfforddi

“Am ddigwyddiad ffantastig, a chyfle gwerthfawr i glywed am ystod mor eang o brosiectau perthnasol.”

Swyddog yn y Senedd

Mae adborth o sesiynau hyfforddi wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac mae yn aml yn arwain at ymgysylltu pellach (cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu gofrestru ar gyfer Maes o Ddiddordeb Ymchwil).

- **Cynnal diwrnod cyfnewid ar ymchwil plant a phobl ifanc gyda SBARC ym Mhrifysgol Caerdydd, parc ymchwil gwyddorau cymdeithasol cyntaf y byd, i gysylltu ymchwilwyr â swyddogion a chanfod meysydd o ddiddordeb cyffredin i gyfoethogi gwaith y Senedd.**

Cynhaliodd swyddogion y Senedd, gan gynnwys ymchwilwyr a chlercod sy'n gweithio gyda'r Pwyllgor Plant, Addysg a Phobl Ifanc (PPIA), sesiwn foreol i gyflwyno'r Senedd a sut mae'n defnyddio ymchwil i ddylanwadu ar bolisi. Yn y prynhawn, mewn cyflwyniadau pum munud, amlinellodd 20 o ymchwilwyr o bum canolfan eu hymchwil gyfredol a'r hyn sydd i ddod. Roedd ymchwilwyr eraill ac aelodau o SBARC yn y digwyddiad hefyd.

Cafodd swyddogion ac ymchwilwyr academiaidd gyfle i rwydweithio a nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin rhwng astudiaethau ymchwil a busnes y Senedd. Mae hyn eisoes wedi effeithio'n uniongyrchol ar waith pwyllgor, gan gynnwys cynllun i Aelodau gyfarfod cyfranogwyr ymchwil i gael persbectif 'profiad byw' rhieni geni yr aethpwyd â'u plant o'u gofal, er mwyn llywio ymchwiliad. Bydd academyddion sy'n ymwneud â'r digwyddiad hefyd yn mewn digwyddiadau rhanddeiliaid i siarad ag Aelodau'n uniongyrchol. Bu hefyd amrywiaeth o waith ymgysylltu dilynol ag amrywiol brosiectau academiaidd. Mae adborth cadarnhaol gan staff y Comisiwn ac academyddion yn dangos awydd i gynnal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol ar faterion thematig eraill.

- **Parhau i gynnal interniaethau tri mis trwy Gynllun Interniaeth Polisi PhD UKRI**, gan gynnwys naw interniaeth ers hydref 2021. Ers 2006, mae Ymchwil y Senedd wedi croesawu 67 o fyfyrwyr drwy'r cynllun hwn, gan roi cyfle unigryw i fyfyrwyr gael profiad o fyd llunio polisiau seneddol, gan ddarparu ar yr un pryd gwerth dros £400,000 o adnoddau staff o fath arall i'r Senedd.
- **Cyhoeddi canllawiau newydd i ymchwilwyr ar ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa seneddol**, mewn partneriaeth â deddfwrfeydd y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

YMCHWIL NEWYDD

Rydym wedi comisiynu amrywiaeth o ymchwil i lenwi bylchau yn y dystiolaeth a chefnogi gwaith craffu, gan gynnwys:

- Ymchwil i agweddau'r cyhoedd a'u profiadau o ran gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig
- Briff ymchwil gwadd ar ddylunio polisïau amaethyddol
- Ymchwil a gwaith mapio ynghylch effaith y pandemig ar wasanaethau bysiau yng Nghymru
- PhD ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth ar arloesi democrataidd
- Erthygl wadd ar betruster brechu
- Comisiynau amrywiol drwy Fframwaith Academiaidd Brexit, gan gynnwys ar y Cytundeb Masnach rhwng y DU a Chanada, ymwahanu rhwng yr UE a'r DU, ymwahanu rhwng Cymru a'r DU, ymrwymïadau rhwynglywodraethol, a hyfforddiant i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Yn ogystal, cyhoeddwyd adroddiad ac argymhellion a ddeilliodd o ymchwil yr Athro Diana Stirbu i effeithiolrwydd pwyllgorau'r Senedd drwy Gymrodoriaeth Academiaidd 2020 ym mis Tachwedd 2021.

CYFNEWID GWYBODAETH YN RHYNGWLADOL

Rydym hefyd wedi cefnogi cyfnewid gwybodaeth ar lefel ryngwladol gan gynnwys:

- Cyfrannu at ddylunio a threialu **dangosyddion rhyngwladol Sefydliad Democratiaeth San Steffan** ar gyfer craffu ôl-ddeddfwriaethol, a chyflwyno sesiwn hyfforddi ar graffu ôl-ddeddfwriaethol ar gyfer cwrs Sefydliad Astudiaethau Deddfwriaethol Uwch Prifysgol Llundain
- Darparu cyngor i uned ymchwil a chyngor gwyddonol newydd **Senedd Lwcsembwrg**
- Cyfrannu modiwl i **Gwrs ar-lein Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar brif ffrydio rhywedd**
- Parhau â **chysylltiad y Senedd ag INTER PARES International IDEA**, sef prosiect i gryfhau capasiti seneddau, drwy secondiad 0.2 cyfwerth ag amser llawn sy'n mynd rhagddo, a chyfnewidiadau staff penodol y Senedd ar safonau mewn bywyd cyhoeddus ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- Cyfrannu i **lenyddiaeth academiaidd** ar y Senedd, gan gynnwys erthygl mewn cyfnodolyn ar graffu ar sail rhywedd (cyhoeddiad i ddod).

BETH SYDD NESAF?

Bydd ail flwyddyn o gyflawni'r strategaeth yn gwneud y canlynol:

- Parhau â **chynllun peilot y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil**, trwy werthuso llwyddiant y cam cychwynnol, ac arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o ddefnyddio'r storfa ymchwil ac arbenigedd
- Gwellu'r **canllawiau** sydd ar gael i (ac wedi'u targedu at) ymchwilwyr ar gyfer ymgysylltu â phwyllgorau'r Senedd
- Archwilio ffyrdd gwell o **gomisiynu prosiectau ymchwil mwy ymatebol ar raddfa fach** i fodloni anghenion ymchwil Aelodau a phwyllgorau
- **Casglu mwy o dystebau a straeon effaith**, a sefydlu lleoliad canolog i'w harddangos
- Darparu **hyfforddiant i dimau pwyllgorau** ar sut i amrywio tystiolaeth a nodi cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth
- Creu **model partneriaeth ar gyfer sefydliadau ymchwil** gyda pherthnasedd strategol i waith y Senedd
- Treialu **cyfres o ddigwyddiadau i Aelodau** yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o gyfnewidfa SBARC.

CYNLLUN GWEITHREDU – MONITRO GWAITH

Amcan strategol	Camau i'w cymryd	Amserlen wreiddiol	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Gweithgaredd	Statws
1. Gwerthu'r syniad o'r Senedd fel man ag iddo effaith	1.1. Datblygu brand 'Cyfnewid Gwybodaeth y Senedd' a deunyddiau hyrwyddo	Hydref 2021	Datblygu brand a deunyddiau	Datblygu brand Cyfnewid Gwybodaeth y Senedd a thempledi ar gyfer dogfennau, sleidiau Twitter, cyflwyniadau ac ati (cwblhawyd Tachwedd 21)	
	1.2. Casglu tystebau a straeon effaith	Hydref 2021	Nifer y tystebau a'r straeon effaith a gasglwyd	Tystebau a gasglwyd o sesiwn breifat y Pwyllgor Iechyd gydag aelodau o Gofrestr Arbenigwyr COVID (Hydref 21) Tystebau pellach i'w casglu yn 2022-23	
	1.3. Sefydlu rhwydwaith o llysgenhadon ar gyfer y Senedd o fewn y gymuned ymchwil (gan gynnwys Cymrodwr Academaidd blaenorol, prosiectau cofrestr arbenigwyr COVID, ac interniaid PhD)	Dechrau 2022	Datblygu rhwydwaith a nifer y llysgenhadon sy'n ymuno	Archwilio rhaglen llysgenhadon mewn partneriaeth â deddfwrfeydd y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon – gwaith yn parhau, Senedd y DU yn arwain	
2. Ei gwneud yn hawdd i ymchwilwyr ymgysylltu â'r Senedd	2.1. Creu cyfres newydd o offer a hyfforddiant ar gyfer ymchwilwyr a chynhyrchwyr gwybodaeth (gan gynnwys sut mae'r Senedd yn gweithio, sut y ymchwil yn cael ei defnyddio, canllawiau ar ddarparu tystiolaeth lafar/ysgrifenedig, ac ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa seneddol)	Hydref 2021	Nifer yr adnoddau a ddatblygwyd ac a ddosbarthwyd Nifer y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd	Hyfforddiant a gynhaliwyd: - Diwrnod cwrdd i ffwrdd WISERD, 40 o gyfranogwyr (Ebrill 21) - Crwsibl Cymru, 50 o gyfranogwyr x 2 (Mai 21 a Mai 22) - Senedd y DU – ymgysylltu â deddfwrfeydd datganoledig, 200 o gyfranogwyr (Mehefin 21) - Rhwydwaith Ymchwil Ymfudo Cymru, 20 o gyfranogwyr (Medi 21) - Arweinwyr y Dyfodol UKRI, 5 cyfranogwr (Rhagfyr 21)	

Amcan strategol	Camau i'w cymryd	Amserlen wreiddiol	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Gweithgaredd	Statws
				- Diwrnod cyfnewid Senedd/SBARC, 80 o gyfranogwyr (Corffennaf 22) - Cymdeithas Ddysgedig Cymru, 100 o gyfranogwyr (Medi 22) - Met Caerdydd - lledaenwyr gwybodaeth, 5 cyfranogwr (Medi 22) - Ysgol Reolaeth Met Caerdydd, 12 cyfranogwr (Hydref 22) - Prifysgol Bangor, 38 o gyfranogwyr (Hydref 22) - Cwrs effaith ymchwil Prifysgol De Cymru, 20 o gyfranogwyr (Hydref 22) Offer - Ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa seneddol (2022) - Tudalennau gwe Cyfnewid Gwybodaeth y Senedd wedi'u hailwampio (2022) Yn ogystal, croesawodd Ymchwil y Senedd naw myfyriwr PhD drwy gynllun Interniaethau Polisi UKRI rhwng Hydref 21 a Hydref 22. Mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddysgu am y broses o lunio polisi mewn cyd-destun seneddol, er mwyn cefnogi'r gwaith o feithrin y to nesaf o ymchwilwyr polisi. Mae'r cynllun hefyd yn darparu adnoddau staff o fath arall i'r Senedd.	
	2.2. Creu un porth i helpu ymchwilwyr i ddod o hyd i gyfleoedd ymgysylltu, hyrwyddo adnoddau a lledaenu gwybodaeth (fel cyfrif Twitter penodol ar gyfer Cyfnewid Gwybodaeth y Senedd, a phorth ar-lein, neu anfon negeseuon rheolaidd)	Hydref 2021	Datblygu porth neu gyfrif Twitter	- Cylchlythyr Creu Rhwydwaith (Rhagfyr 21) - Anfonwyd cylchlythyrau ar 21 Rhagfyr, 22 Chwefror, 22 Mawrth, 22 Mai, 22 Mehefin a 22 Medi	

Amcan strategol	Camau i'w cymryd	Amserlen wreiddiol	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Gweithgaredd	Statws
	2.3. Cynyddu ystod y cyfleoedd i ymchwilyr ymgysylltu â'r Senedd (fel erthyglau gwadd, arolygon, fframweithiau, ac adolygiadau cyflym o dystiolaeth) a chyfleu'r ystod lawn o gyfleoedd presennol (gan gynnwys ymgynghoriadau pwyllgor, cymrodoriaethau, comisiynau ymchwil, a rolau cynghorwyr arbenigol).	Mynd rhagddo	Nifer ac ystod y cyfleoedd a gynigir	Ystod ehangach o gyfleoedd i ymchwilyr ymgysylltu â'r Senedd, gan gynnwys: - Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil - Erthyglau gwadd a chyhoeddiadau ymchwil - Doethuriaeth gydweithredol - Arolwg o gofrestr arbenigwyr COVID, a thrafodaeth ford gron gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymhlith ymatebwyr - Archwilio'r defnydd o fyfyrwyr PhD i gynnal adolygiadau cyflym o dystiolaeth ar ran pwyllgorau (fel rhan o gymrodoriaeth Senedd y DU) - Diwrnod cyfnewid SBARC - Galwadau am arbenigedd ar gyfer anghenion penodol pwyllgorau - Interniaethau PhD UKRI - Comisiynau ymchwil ad-hoc Defnyddiwyd cylchlythyr y Rhwydwaith Gwybodaeth i ledaenu'r holl gyfleoedd.	
3. Amrywio'r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Senedd	3.1. Sefydlu 'Rhwydwaith Gwybodaeth' newydd, gyda phartneriaethau ehangach a mwy ffurfiol i gynyddu'r gronfa o arbenigwyr y mae gan y Senedd fynediad atynt.	Mynd rhagddo	Nifer y partneriaethau a sefydlwyd	- Creu Rhwydwaith Gwybodaeth y Senedd (Rhagfyr 21) - Hyrwyddo'r rhwydwaith, gyda dros 250 yn cofrestru o dros 100 sefydliad (erbyn Medi 22) Cyfarfodydd rheolaidd â'r canlynol: Cymdeithas Ddysgedig Cymru, UKRI, Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), Crwsibl Cymru, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD), campws SBARC Prifysgol Caerdydd, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a Capabilities in Academic Policy Engagement (CAPE).	

Amcan strategol	Camau i'w cymryd	Amserlen wreiddiol	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Gweithgaredd	Statws
				Cyfarfodydd ychwanegol gyda Chanolfan Gofal yr ESRC, y Brifysgol Agored, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Cyngor Biofoeseg Nuffield, Prifysgol Caeredin, Coleg Prifysgol Llundain, ac Uned Ymchwil Ymfudo Prifysgol Abertawe. Sesiynau dal i fyny rheolaidd gydag arweinwyr cyfnewid gwybodaeth Senedd y DU, Senedd yr Alban, Cynulliad Cogledd Iwerddon a'r Oireachtas Cymryd rhan yng Ngrŵp Cyfnewid Gwybodaeth Deddfwrfeydd y DU, a Fforwm Broceru Gwybodaeth Polisi'r DU.	
	3.2. Defnyddio tystiolaeth o bell i ehangu ac amrywio arbenigedd o Gymru a thu hwnt.	Mynd rhagddo	Cyfran y sesiynau tystiolaeth sy'n defnyddio tystiolaeth o bell	Yn ôl y data monitro amrywiaeth tystiolaeth, o'r 18 y cant o bobl a gyflwynodd dystiolaeth a ddewisodd ymateb i'r arolwg monitro, gwnaeth 88 y cant gymryd rhan o bell (naill ai'n rhoi tystiolaeth lafar neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu â dinasyddion). Defnyddiwyd tystiolaeth o bell ar gyfer sesiwn ford gron academiaidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol.	
	3.3. Darparu hyfforddiant i glercod ac ymchwilwyr ar sut i amrywio tystiolaeth a nodi cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth	Dechrau 2022	Darparu hyfforddiant/adnoddau	Cynllunio ar y gweill fel rhan o raglen amrywiaeth tystiolaeth ehangach (i'w pharhau i 2022-23)	
	3.4. Monitro pwy sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau i chanfod pa bobl, grwpiau, sefydliadau, a sectorau sy'n cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli.	O fis Medi 2021	Cyfran y dystiolaeth a gafwyd gan y gymuned ymchwil	Cynhaliwyd prosiect peilot ar fonitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau o fis Tachwedd i fis Mai, ac fe'i gwerthuswyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. Dechreuodd ail prosiect peilot ym mis Medi 22. Bydd yn rhedeg tan ddiwedd Ebrill 23.	

Amcan strategol	Camau i'w cymryd	Amserlen wreiddiol	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Gweithgaredd	Statws
				Mae'r gweithgor (gan gynnwys yr arweinydd cyfnewid gwybodaeth) wrthi'n cynllunio ymyriadau i wella amrywiaeth y dystiolaeth.	
	3.5. Defnyddio gwybodaeth o waith monitro tystion y pwyllgorau i ddatblygu offer ac addasiadau i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan.	2022	Datblygu offer ac addasiadau	Mae'r gweithgor (gan gynnwys yr arweinydd cyfnewid gwybodaeth) wrthi'n cynllunio ymyriadau i wella amrywiaeth y dystiolaeth (gwaith parhaus yn 2022-23).	
4. Ehangu a dwyshau'r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Senedd	4.1. Datblygu 'meysydd ymchwil' hirdymor i ganoli adnoddau a chynllunio'n strategol ymgysylltiadau megis cymrodoriaethau, fframweithiau a digwyddiadau.	Hydref 2021	Datblygu'r set gyntaf o Feysydd o Ddiddordeb Ymchwil ar gyfer 2022	Lansiwyd cynllun peilot y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil ar 22 Medi, gyda phedwar Maes wedi'u nodi gan ddau bwyllgor. Dechreuwyd y prosiect ddiwedd 2021, gyda chefnogaeth Senedd y DU a CAPE. Datblygwyd nodyn cysyniad, a chynhaliwyd gweithdy i rannu profiadau o Senedd y DU ar gyfer y gyfarwyddiaeth fusnes ar 22 Mawrth. Cytunodd dau bwyllgor i dreialu'r Meysydd. Mae CAPE yn ariannu Cymrawd Polisi (yn dechrau gwaith yn hydref 22) diwrnod yr wythnos am chwe mis i gefnogi'r gwaith o ledaenu, dadansoddi a gwerthuso cynllun peilot y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil (yn parhau i 2022-23).	
	4.2. Nodi'n strategol fylchau yn y dystiolaeth sydd ei hangen i'r pwyllgorau ac ymchwil gynnal gwaith craffu da, a dyfeisio ffyrdd o'u llenwi.	Mynd rhagddo	Nifer y comisiynau ymchwil sylfaenol	Rydym wedi comisiynu amrywiaeth o ymchwil i lenwi bylchau yn y dystiolaeth a chefnogi gwaith craffu, gan gynnwys: - Ymchwil i agweddau'r cyhoedd a'u profiadau o ran gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig - Briff ymchwil gwadd ar ddylunio polisiau amaethyddol - Ymchwil a gwaith mapio ynghylch effaith y pandemig ar wasanaethau bysiau yng Nghymru	

Amcan strategol	Camau i'w cymryd	Amserlen wreiddiol	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Gweithgaredd	Statws
				- PhD ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth ar arloesi democrataidd - Erthygl wadd ar betruster brechu - Comisiynau amrywiol drwy Fframwaith Academaidd Brexit, gan gynnwys ar y Cytundeb Masnach rhwng y DU a Chanada, ymwahanu rhwng yr UE a'r DU, ymwahanu rhwng Cymru a'r DU, ymrwymïadau rhynglywodraethol, a hyfforddiant i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol	
	4.3. Defnyddio gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth i archwilio materion trawsbortffolio mwy hirdymor nad ydynt efallai ar agenda uniongyrchol y Senedd.	Mynd rhagddo	Nifer y comisiynau ymchwil yn ymwneud â materion trawsbortffolio tymor hwy	Ni nodwyd unrhyw gyfleoedd eto, ond gellir defnyddio'r materion a nodwyd gan y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil i gomisiynu adolygiadau tystiolaeth cyflym.	
	4.4. Nodi cyfleoedd i ychwanegu gwerth at y ddadl wleidyddol trwy ddod o hyd i leisiau newydd a safbwyntiau newydd, gan gynnwys trwy fathau newydd o ymchwil a dadansoddi data.	Mynd rhagddo	Nifer y comisiynau ymchwil sy'n defnyddio ymchwil neu ddull dadansoddi newydd neu wahanol	Mae'r gwaith mapio ac ymchwil gan academyddion WISERD i effaith y pandemig ar wasanaethau bysiau yng Nghymru yn enghraifft o ddadansoddi data i ddarparu mewnwelediad polisi.	
5. Manteisio i'r eithaf ar arbenigedd, sgiliau a	5.1. Rhannu arbenigedd a phrofiadau swyddogion â seneddau eraill (a chynulleidfaoedd allanol eraill megis myfyrwyr gwleidyddiaeth)	2022	Nifer yr ymgysylltiadau allanol	Cymryd rhan mewn dangosyddion craffu ôl-ddeddfwriaethol rhyngwladol y WfD – adborth cynhwysfawr gan weithgor craffu ôl-ddeddfwriaethol y Senedd ar ddangosyddion	

Amcan strategol	Camau i'w cymryd	Amserlen wreiddiol	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Gweithgaredd	Statws
phrofiadau mewnol	trwy hyfforddiant, fideos, a chynhyrchion gwybodaeth eraill.			(Tachwedd 21) a hunanasesiad i dreialu'r dangosyddion (Tachwedd-Ebrill) - Darparu cyngor i uned ymchwil a chyngor gwyddonol newydd Senedd Lwcsembwrg (2022) - Cyfrannu modiwl i Gwrs ar-lein Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar brif ffrydio rhywedd (Mehefin 22) - Parhau â chysylltiad y Senedd ag INTER PARES International IDEA, sef prosiect i gryfhau capasiti seneddau, drwy secondiad 0.2 cyfwerth ag amser llawn sy'n mynd rhagddo, a chyfnewidiadau staff penodol y Senedd ar safonau mewn bywyd cyhoeddus ac ymgysylltu â'r cyhoedd (2022)	
	5.2. Rhannu arbenigedd a phrofiadau yn fewnol ar gyfer sesiynau cynefino staff a dysgu anffurfiol rhwng cymheiriaid.	2022	Nifer yr ymgysylltiadau mewnol	Ni nodwyd unrhyw gyfleoedd yn 2021-22. Mae Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth yn archwilio rhaglen hyfforddi sgiliau seneddol gydweithredol ledled y DU.	
	5.3. Cyfrannu i lenyddiaeth academiaidd ar y Senedd ac astudiaethau seneddol	2022	Nifer y cyfraniadau i lenyddiaeth academiaidd	PhD ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth ar arloesi democrataidd (yn mynd rhagddi) Erthygl mewn cyfnodolyn ar graffu ar sail rhywedd (i'w chyhoeddi)	
	5.4. Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i staff y Senedd, drwy gymrodoriaethau gwrthol a hyfforddiant	2022	Nifer y cyfleoedd dysgu a datblygu	Cafodd staff Ymchwil y Senedd hyfforddiant gyda WISERD ar ddelweddu data (Mehefin 22)	
6. Dylunio gwell gwasanaethau	6.1. Dysgu oddi wrth seneddau eraill a llenyddiaeth academiaidd i ddarparu gwell gwasanaethau i'r Aelodau a'r cyhoedd	Mynd rhagddo	Nifer yr ymgysylltiadau	Hyfforddiant craffu ar gyllidebau ar sail cydraddoldeb ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiadau INTER PARES (Ionawr 22)	

Amcan strategol	Camau i'w cymryd	Amserlen wreiddiol	Dangosydd Perfformiad Allweddol	Gweithgaredd	Statws
seneddol a gwerthuso effeithiolrwydd	6.2. Defnyddio cynlluniau cyfnewid gwybodaeth fel cymrodoriaethau i werthuso effeithiolrwydd gwasanaethau, prosesau a gweithgareddau	Mynd rhagddo	Nifer yr ymgysylltiadau	Cyhoeddwyd adroddiad yr Athro Diana Stirbu ac argymhellion o gymrodoriaeth yn 2020 ym mis Tachwedd 2021. Mae'r rhain wedi llywio'r dull cyfnewid gwybodaeth a monitro amrywiaeth tystiolaeth. Mae cynnydd yr argymhellion eraill yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. PhD ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth ar arloesi democrataidd (yn mynd rhagddi)	
	6.3. Dylunio dulliau ymchwil mewnol gwell, megis pwysoli cyson o'r dystiolaeth a thechnegau rheoli gwybodaeth	2022	Nifer yr ymgysylltiadau	Archwilio'r posibiliad o ymchwilwyr SBARC yn cynnal hyfforddiant/gweithdai i ymchwilwyr a chlercod (gwaith yn mynd rhagddo i 2021-22)	
	6.4. Defnyddio cyfnewid gwybodaeth ar gyfer adolygiad cymheiriaid	Mynd rhagddo	Nifer yr ymgysylltiadau	Ni nodwyd unrhyw gyfleoedd yn 2021-22.	

THEORI NEWID STRATEGAETH CYFNEWID GWYBODAETH

Gweledigaeth: Mae ein gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth yn sicrhau bod yr ystod orau a mwyaf amrywiol o dystiolaeth ymchwil ar gael i'r Aelodau a staff, i gefnogi gwaith deddfu effeithiol a chraffu'n drylwyr ar gamau gweithredu'r llywodraeth.

Mewnbynnau

1. Cyllid y Senedd ar gyfer gwaith cyfnewid gwybodaeth – staff a chyllideb
2. Adroddiad Stirbu
3. Gwerthusiad o gyfnewid gwybodaeth yn neddfwrfeydd y DU
4. Ymgynghoriad strategaeth cyfnewid gwybodaeth
5. Adroddiad Dyfodol y Senedd

Gweithgarwch

1. Gwerthu'r Senedd fel lle sy'n dylanwadu
 - Datblygu brand Cyfnewid Gwybodaeth, deunyddiau hyrwyddo, tystebau, astudiaethau achos, rhwydwaith o lysgenhadon
2. Ei gwneud yn hawdd i ymchwilwyr ymgysylltu â'r Senedd
 - Cyfres newydd o offer a hyfforddiant
3. Lleoliad sengl i hysbysebu cyfleoedd a chynyddu ystod o gyfleoedd#Amrywio'r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Senedd
 - Partneriaethau newydd
 - Harneisio tystiolaeth o bell ar gyfer amrywiaeth
 - Monitro pwy sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau a datblygu offer i oresgyn rhwystrau
4. Ehangu a dwysau'r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Senedd
 - Datblygu meysydd o ddiddordeb ymchwil hirdymor, i nodi bylchau, archwilio materion nad ydynt ar yr agenda uniongyrchol, ac ychwanegu gwerth at ddadl
5. Manteisio i'r eithaf ar arbenigedd, sgiliau a phrofiad mewnol
 - Rhannu arbenigedd, sgiliau a phrofiadau swyddogion y Senedd â seneddau eraill, myfyrwyr, academyddion a staff eraill y Senedd
 - Cyfrannu i lenyddiaeth academaidd
 - Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu staff
6. Dylunio gwell gwasanaethau seneddol a gwerthuso effeithiolrwydd
 - Dysgu oddi wrth seneddau eraill a'r llenyddiaeth academaidd
 - Defnyddio gweithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth ar gyfer gwerthuso
 - Dylunio dulliau ymchwil mewnol gwell
 - Defnyddio perthnasoedd Cyfnewid Gwybodaeth ar gyfer adolygiad cymheiriaid

Rhaglenni

- Rhaglen ymgysylltu (offer, hyfforddiant, hyrwyddo, cyfryngau cymdeithasol)
- Partneriaethau a rhwydweithiau
- Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil (ar lefel y Senedd neu ar lefel pwyllgor)
- Cynllun Cymrodoriaeth
- Cynllun interniaeth PhD UKRI
- Fframwaith Ymchwil Brexit (hyd at fis Gorffennaf 2022)
- Cofrestr Arbenigwyr COVID
- Ymgysylltu rhyngwladol
- Datblygu staff

Allbynnau

Cefnogaeth i ymchwilwyr, cyllidwyr ymchwil, lledaenwyr ymchwil, a sefydliadau ymchwil i gynyddu dealltwriaeth o'r Senedd ac ymgysylltiad â hi

Cefnogaeth i Aelodau, Pwyllgorau'r Senedd a staff i wella dealltwriaeth o dystiolaeth ymchwil ac ymgysylltiad â hi.

Cefnogaeth i randdeiliaid rhyngwladol i rannu profiadau, arbenigedd a sgiliau'r Senedd

Canlyniadau (tymor byr)

Mae ymchwilwyr yn deall y Senedd a'i phrosesau, ac mae ganddynt y sgiliau i ymgysylltu

Mae grŵp mwy amrywiol o ymchwilwyr yn ymgysylltu â'r Senedd

Mae Aelodau a staff yn gwerthfawrogi tystiolaeth ymchwil, ac mae ganddynt y sgiliau i'w gwerthuso

Mae Aelodau a staff yn fwy ymwybodol o sut i gael gafael ar dystiolaeth ymchwil bresennol

Canlyniadau (tymor canolig)

Mae Ymchwil y Senedd a gwasanaethau eraill yn gallu diwallu ystod ehangach o anghenion tystiolaeth

Mae strwythurau ac arferion mewnol y Senedd yn esblygu i alluogi ac annog y defnydd o ymchwil ar gyfer craffu, deddfu a dadlau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae ymgysylltu â'r Senedd a'r effaith arni wedi'u gwreiddio mewn sefydliadau ymchwil, ymchwilwyr, lledaenwyr ymchwil, a blaenoriaethau cyllidwyr

Mae strwythurau cymell a rhaglenni gwaith sefydliadau addysg uwch a'r Senedd wedi'u halinio'n agosach i ganiatáu cydweithredu mwy effeithiol

Gwell dealltwriaeth yn fyd-eang am arferion da a phrofiadau'r Senedd (mewn astudiaethau seneddol a rhaglenni meithrin capasiti)

Effeithiau

Mae craffu, dadlau, a deddfu yn y Senedd (ac mewn democratiaethau seneddol ledled y byd) yn cael eu cryfhau, sy'n arwain at newid cadarnhaol i gymdeithas